Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission Audit Committee

**Dyddiad:** 21 Chwefror 2013
**Amser:** 11.00 – 13.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B, Tŷ Hywel, Y Cynulliad Cenedlaethol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2013

**Yn bresennol:**

Aelodau

Richard Calvert (Cadeirydd a Chynghorydd Annibynnol)
Eric Gregory, Cynghorydd Annibynnol
Angela Burns (Aelod Cynulliad)

Swyddogion

Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc, a'r Swyddog Cyfrifyddu
Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau
Lynne Flux, Pennaeth Archwilio Mewnol
Ian Pennington, KPMG
Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru
Helen Holt, Swyddfa Archwilio Cymru
John Grimes, Pennaeth Llywodraethu
Jan Koziel, Pennaeth Caffael
Sarah Crosbie, Ysgrifenyddiaeth

**Cyflwyniadau**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys Helen Holt i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio, a Sarah Crosbie sy'n cymryd lle Alison Rutherford fel dirprwy glerc. Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Baldwin, Nicola Callow, a Richard Harries.

2. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. **Eitem 1**: Nid oedd dim materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2012 na fyddent yn ymddangos mewn man arall ar yr agenda neu a fyddai'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

<u>Archwiliadau mewnol</u>

4. **Eitem 2: Y datblygiadau diweddaraf**
ACAC (16) Papur 1a. Cynnydd o ran y Rhaglen Archwilio Mewnol 2012-13

5. Cyflwynodd Lynne Flux ei hadroddiad ar gynnydd y Cynllun Archwilio cyfredol. Nododd nad oedd unrhyw broblemau'n ymwneud â thwyll na rheolaeth wedi codi o'r gwaith dadansoddi data a wnaed yn ddiweddar.

6. Soniodd Lynne am y gwaith allweddol a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cynnal adolygiad o System Rheoli Busnes y Cynulliad sydd i'w gynnal ym mis Ebrill/Mai, a gwaith parhaus i nodi'n derfynol y dangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn cefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol a'r nodau strategol. Byddai'r rhain yn rhan o Gynllun Archwilio 2013-14.

7. Cafwyd rhai addasiadau ar gyfer gweddill 2012-13. Byddai gwaith archwilio ychwanegol yn cynnwys edrych ar y system Rheoli Gwaith Achos (gan ganolbwyntio ar brosesau a'r gwersi a ddysgwyd) ym mis Mawrth, cael trosolwg o weithrediadau Siop y Cynulliad a dulliau rheoli a phrofi treuliau'r Aelodau i ategu gwaith Swyddfa Archwilio Cymru.

8. Roedd Lynne wedi ymwneud hefyd â gwaith y Bwrdd Prosiect Dyfodol TGCh a bu yng nghyfarfod y Bwrdd Buddsoddi ym mis Chwefror 2013 fel arsylwr. Byddai papur arall ar ddadansoddi data yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf, ac mae'r tîm Cyllid eisoes wedi dechrau edrych ar ganfyddiadau'r papur yn fanwl.

9. Yng ngoleuni ymadawiad Lynne â'r Cynulliad ddiwedd mis Mawrth, byddai trefniadau archwilio interim ar waith. Roedd trafodaethau ynghylch y


DRAFT

trefniadau hyn eisoes wedi dechrau, gyda Claire Clancy a Steven O'Donoghue.

10. Yn ystod y drafodaeth, nododd yr Aelodau'r dyddiad terfyn heriol ar gyfer eu cyflawni, yng ngoleuni ymadawiad Lynne. Mynegodd Lynne ei hyder y byddai'r elfennau'r hyn o'r gwaith wedi'u cwblhau cyn iddi adael. Nodwyd bod sicrwydd cyffredinol ynghylch y rhaglen, a mynegodd yr Aelodau eu bodlonrwydd fod y gwaith sylfaenol wedi'i gwblhau yn gynnar yng nghyfnod y rhaglen.

**Eitem 3 - Y Strategaeth Archwilio Mewnol arfaethedig**

ACAC (16) Papur 1b - Strategaeth Archwilio Mewnol

ACAC (16) Papur 1c - Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

11. Cyflwynodd Lynne y papurau drwy yn gyntaf nodi'r gofyn i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a byddai'r safonau hyn ar waith ar 1 Ebrill 2013. Roedd Papur 1c yn un i'w nodi yn ei hanfod. Byddai ystyriaethau allweddol eraill dros y flwyddyn yn canolbwyntio ar y prosiect Dyfodol TGCh, y system Adnoddau Dynol a Chyflogres integredig, a Chynllunio Parhad Busnes.

12. Wrth drafod, tynnodd yr aelodau sylw at yr angen i gydbwyso'r angen i archwilio dulliau rheoli craidd â gwaith ehangach ar werth am arian. Dylid ystyried hyblygrwydd fel ffactor wrth gynllunio, er mwyn caniatáu amser ar gyfer unrhyw raglenni mawr sy'n codi.

13. Cododd yr Aelodau bryderon bod adolygiad o ddulliau rheoli risg wedi'i drefnu bob tair blynedd yn unig o fewn y cynllun, a theimlwyd bod hwn yn gyfnod rhy hir heb adolygu dulliau rheoli risg.

14. Roedd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio yn gyffredinol, ond nododd eto y dylid gosod ffocws mwy pendant ar werth am arian yn y dyfodol.

**ACAC (16) Papur 1d - Archwilio Mewnol - trefniadau interim**



DRAFT

15. Cyflwynodd Steven O'Donoghue y papur, a dywedodd y byddai trefniadau archwilio mewnol yn cael eu cynnal gan Ian Pennington a KPMG hyd at ddiwedd y flwyddyn, a bod y broses o gaffael gwasanaethau archwilio newydd wedi dechrau, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth parhaus yn cael ei ddarparu pan fydd contract KPMG yn dod i ben.

16. Tynnodd yr Aelodau sylw at fanteision cynnal diwylliant archwilio cadarn drwy gael archwilydd mewnol fel aelod o staff, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ddarpariaeth o'r tu allan. Hefyd bu'r Aelodau'n ystyried manteision cael darpariaeth archwilio gymysg, fel sydd ar gael gyda'r trefniant presennol, ac y byddai'n ddefnyddiol cynnal asesiad cyffredinol o werth y trefniant cyfredol. Teimlai'r Aelodau y gellid ymchwilio'n adeiladol i opsiynau eraill hefyd, fel gwasanaethau a rennir â sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn lleol, neu ddefnyddio secondiadau.

**Eitem 4 - Adroddiadau Archwilio Mewnol diweddaraf**
ACAC (16) Papur 1e – Adroddiad dilynol Chwefror 2013

17. Cyflwynodd Lynne y papur a oedd yn ymwneud â'r archwiliad Rheoli Asedau a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2012, yr archwiliad Rheolaeth Ariannol a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2012 a chrynodeb o gynnydd a wnaed o ran cynllunio parhad busnes ers yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012. Roedd Lynne yn falch o'r cynnydd a welwyd yn dilyn yr argymhellion a wnaed, yn arbennig gyda chydweithwyr o'r adran Gyllid a oedd wedi rhoi llawer o newidiadau ar waith yn dilyn yr archwiliad. Byddai gweithdy gwerth am arian hefyd yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol.

18. O ran cynllunio parhad busnes, roedd aelod o staff y Cynulliad wedi'i ddynodi ar gyfer y gwaith hwn yn llawnamser. Roedd cymorth i fwrw ymlaen â'r cynlluniau ac i ddarparu hyfforddiant hefyd wedi'u darparu drwy gontract ag arbenigwr ym maes parhad busnes o Gyngor Caerdydd. Cyflwynir adroddiad ar ganlyniadau ymarferiad bwrdd gwaith i asesu effeithiolrwydd y

cynlluniau presennol ym mis Mehefin. Dylid cynnwys Eric Gregory yn yr ymarferiad hwn os yn bosibl.

19. Rhoddodd yr Aelodau eu sylwadau ynghylch efallai nad taenlenni Excel yw'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli Cofrestrau Asedau, ond cydnabuwyd bod gwelliannau wedi'u gwneud. Byddai system well yn cael ei chyflwyno fel rhan o brosiect adnewyddu'r system Gyllid. Croesawodd y swyddogion ganllawiau'r Cynghorwyr yn hyn o beth. O ran cynllunio parhad busnes, teimlai'r Aelodau bod dyddiad targed ymhen dwy neu dair blynedd yn gyfnod hir ar gyfer rhoi'r cynlluniau ar waith. Dywedodd swyddogion y byddai'r gwaith cynllunio yn datblygu'n fwy cyflym ar ôl yr ymarferiad bwrdd gwaith, a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Ebrill.

20. Roedd y Pwyllgor yn falch o'r cynnydd cyffredinol a wnaed.

**Eitem 5 – Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb**
ACAC (16) Papur 2a – Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol 2012-13 (+atodiad)

21. Nododd y Pwyllgor y sefyllfa o ran y gyllideb.

**Eitem 6 – Y wybodaeth ddiweddaraf am raglen Gwerth am Arian Comisiwn y Cynulliad;**
ACAC (16) Papur 3a – Rhaglen Gwerth am Arian Comisiwn y Cynulliad

22. Roedd un mater canolog yn yr adroddiad yn ymwneud â staff yn cael trafferth i sicrhau ffocws o ran eu gweithgareddau gwerth am arian, oherwydd nad oeddent yn sicr beth oedd blaenoriaethau penodol y sefydliad.

23. Soniodd yr Aelodau am edrych yn fanwl ar gost gwasanaethau o'u cymharu â'r safonau sy'n cael eu cynnig, a pha mor bwysig oedd sefydlu lefel y gwasanaeth y mae'r Cynulliad am ei ddarparu ("gwerth = cost + gwasanaeth cwsmeriaid" fu'r dangosydd a ddefnyddiwyd gan John Lewis).

Awgrymwyd y byddai datblygu strategaeth gyffredinol o gymorth mawr i ddarparu gwelliannau o ran gwerth am arian. Un elfen allweddol o'r gwaith fyddai nodi'n gywir lefel briodol y gwasanaeth a fyddai'n angenrheidiol i gyflawni amcanion y Comisiwn.

24. Hefyd nododd y Pwyllgor bwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar nod graidd y Cynulliad i gefnogi'r Aelodau yn eu gwaith. Cymeradwyodd y Pwyllgor y gwaith a gyflawnir ac roedd yn edrych ymlaen at glywed rhagor yn ei gylch wrth i'r gwaith ddatblygu.

**Eitem 7 – Y wybodaeth ddiweddaraf am Gaffael**

ACAC (16) Papur 3b - Y wybodaeth ddiweddaraf am Gaffael

25. Cyflwynodd Jan Koziel y wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd i ddatblygu a chryfhau'r gefnogaeth a ddarperir i gaffael yn y Cynulliad ers ei benodi ym mis Tachwedd 2011.

26. Holodd yr Aelodau ynghylch effeithiolrwydd y dulliau o reoli contractau caffael sy'n werth llai na £25,000. Amlygodd Jan y ffaith fod ei dîm yn weledig iawn, yn gweithio gyda staff i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldebau wrth iddynt gaffael contractau o'r fath, a'i hyder yn y rhestr o gontractau sydd i'w hadnewyddu. Ategodd Claire y sylwadau hyn, gan ddweud, yn ychwanegol at y rhestr, y byddai'r Bwrdd Buddsoddi hefyd yn cynnal adolygiad manwl fesul llinell o gyllidebau. Cyflwynwyd dulliau rheoli llymach i atal ymrwymiadau heb eu hawdurdodi, ac roedd cael gwared ar ddirprwyaethau lle'r oedd gwendidau o ran sgiliau neu berfformiad hefyd wedi helpu i sicrhau bod y broses yn un gadarn.

27. Nododd Jan, yn sgîl y cam nesaf o'i gynllun, yr ymestynnir hyfforddiant ar gaffael drwy'r sefydliad, a byddai'n hanfodol ar gyfer gwella ymgysylltiad cynnar ac ymddygiadau sy'n newid.

28. Croesawodd y Pwyllgor y newidiadau cadarnhaol a wnaed i wella'r swyddogaeth gaffael yn y Cynulliad, a nododd y gallai'r lleihad o ran ymadawiadau fod yn arwydd posibl o'r newidiadau a wnaed. Yn y cam

adolygiad interim hwn, roedd y Pwyllgor yn falch o'r cynnydd a wnaed, ond nododd bod rhagor o waith i'w wneud.

**Adroddiad Rheoli Risg a'r newidiadau sy'n deillio**

ACAC (17) Papur 3c - Adroddiad Risgiau Corfforaethol (+ atodiad)

29. Cyfeiriwyd at y risgiau sy'n gysylltiedig ag adolygu cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r posibilrwydd y bydd y cyfryngau yn rhoi sylw negyddol i'r mater. Cafwyd sylwadau ychwanegol o ran y newidiadau i'r contract TGCh a'r posibilrwydd y gallai hynny'n effeithio'n negyddol ar ddarparu'r gwasanaethau hynny ar gyfer staff. Soniodd Claire am y camau lliniaru helaeth a sefydlwyd, a bod yr adroddiad yn sicrhau y bydd sylw'r Bwrdd Rheoli yn cael ei roi i risgiau lefel uchel yn rheolaidd.

30. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch a fyddai'n fanteisiol nodi cyfradd risg cyfredol a chyfradd risg targed yn yr adroddiad. Byddai hyn o gymorth i asesu pa risgiau y gellid eu goddef a pha risgiau y byddai modd neilltuo llai o sylw iddynt. Ar y llaw arall, nid oedd asesu risg yn wyddoniaeth union gywir, a'r mater allweddol oedd sicrhau bod y risgiau cywir yn cael eu monitro. Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r gyfradd risg ar gyfer Risg ICT07 gael ei chodi i lefel 'canolradd' yng ngoleuni'r effaith bosibl ar weithgareddau'r Cynulliad.

**Eitem 9 – Effeithiolrwydd y Pwyllgor**

ACAC (16) Papur 3d – Cylch Gorchwyl

31. Cytunodd y Pwyllgor y dylai ail-ystyried yr eitem hon mewn cyfarfod yn y dyfodol. Ar ôl cael cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru, teimlai'r Cadeirydd y dylid cynnal arolwg 'effeithiolrwydd' yn y gwanwyn, wedi i'r aelodau newydd gynefino â'u swyddogaethau. Dywedodd y byddai'n falch o glywed unrhyw farn gan yr Aelodau am y Cylch Gorchwyl.

32. Dywedodd y byddai'n dosbarthu Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor ar gyfer ei ystyried gan yr Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 10 – Y Strategaeth Archwilio Allanol arfaethedig**



DRAFT

ACAC (16) Papur 4a –Amlinelliad Archwilio Blynyddol

33. Rhoddodd Mark Jones drosolwg o brif elfennau'r strategaeth, gan dynnu sylw'n benodol at y risgiau cynhenid a oedd yn gysylltiedig â gwaith y tîm cyllid a chanlyniadau posibl arolwg Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

34. Croesawodd y Pwyllgor y cynigion, ac ni chododd y swyddogion ddim pryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer yr archwiliadau.

**Eitem 11 - Ymadawiadau**

ACAC (16) Papur 5a - Crynodeb o'r ymadawiadau

35. Nodwyd un ymadawiad sy'n gysylltiedig â'r broses o gaffael y system Adnoddau Dynol-y Gyflogres. Drwy ddefnyddio'r broses 'dialog cystadleuol', dim ond dau gyflenwr a oedd wedi mynd ymlaen i'r cam arfarnu terfynol. Golyga hyn bod ymadawiad yn angenrheidiol oherwydd bod llai na thri tendr yn cael eu hystyried.

36. Nododd y Pwyllgor y papur.

**Eitem 5 - Blaenraglen Waith**

ACAC (17) Papur 5a - Blaenraglen waith

37. Nododd y Pwyllgor gynnwys y flaenraglen waith a chadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 18 Ebrill.

<u>**Diwedd y cyfarfod**</u>

38. Clowyd y cyfarfod gan Richard Calvert, a fynegodd ei werthfawrogiad ef a'r Pwyllgor i Lynne Flux, a fyddai'n gadael y Cynulliad ar ddiwedd mis Mawrth, am ei chyfraniad i'r Cynulliad ac at waith y Pwyllgor Archwilio. Dywedodd ei bod wedi bod yn bleser gweithio gyda Lynne, a nododd y cynnydd a wnaed o fewn yr uned Archwilio Mewnol yn sgîl ymdrechion Lynne.

DRAFT

39. Ymatebodd Lynne, gan ddweud y byddai hi’n symud ymlaen at gyfleoedd newydd y tu allan i’r Cynulliad gyda chryn dristwch, a diolchodd i’r swyddogion ac Aelodau’r Pwyllgor am eu cefnogaeth yn ystod ei hamser yn gweithio yma.

## Trafodaeth breifat â Swyddfa Archwilio Cymru

### Perthynas y Pwyllgor â darparwyr gwasanaethau archwilio allanol

40. Daeth y cyfarfod i ben gyda thrafodaeth breifat â chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru.

DRAFT